# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2019

## 12.00 hanner dydd tan 1.30pm, yn Ystafell Friffio'r Cyfryngau, y Senedd

**Yn bresennol:** gweler y rhestr atodedig

**Croeso a Chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod ac eglurodd ei fod yn gweithredu fel Cadeirydd yn dilyn penodi'r Cadeirydd blaenorol, Lee Waters AC, i swydd weinidogol. Yna gofynnwyd i'r aelodau a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain i'r cyfarfod. Cytunwyd y dylid newid trefn yr agenda i gynnwys y siaradwyr gwadd.

**Ethol Cadeirydd**: Enwebodd John Griffiths AC Huw Irranca-Davies AC, a chafodd ei eilio gan Llyr Gruffydd AC. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach, ac etholwyd Huw Irranca-Davies AC yn unfrydol. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfarfod am eu cefnogaeth. Aeth ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Ddadl yr Aelodau ar Deithio Llesol a gyflwynodd yn y Senedd ar 20 Chwefror. Roedd y cynnig wedi galw am ddull mwy uchelgeisiol o ran teithio llesol gan Lywodraeth Cymru gyda gwell strategaeth a thargedau newydd. Cafodd y cynnig ei dderbyn gan y Dirprwy Weinidog newydd ar ran y llywodraeth a chafodd gefnogaeth unfrydol yr Aelodau.

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018 eu derbyn fel cofnod cywir. O dan y materion yn codi, adroddodd yr Ysgrifennydd ar lwyddiant Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru wrth sicrhau gwelliant sylweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru o ran teithio llesol. Roedd y polisi bellach yn nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer teithio llesol.

**Teithio Llesol ac Ysgolion:** Eglurodd y Cadeirydd ei fod am ymdrin â thair agwedd ar y pwnc: Ysgolion yr 21ain Ganrif, y cwricwlwm a hyfforddiant beicio mewn ysgolion. Gwahoddodd Dr Dafydd Trystan, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Hamadryad, Ysgol yr 21ain Ganrif, i roi cyflwyniad ar sut roedd ei ysgol wedi gweddnewid y ffordd y mae plant a rhieni yn teithio i'r ysgol yn ddyddiol. Disgrifiodd Dafydd hanes sefydlu'r ysgol a'r pryder ymysg trigolion lleol am y cynnydd mewn traffig y byddai ysgol newydd yn ei olygu. Penderfynodd llywodraethwyr yr ysgol yn gynnar i ddod yn ysgol teithio llesol ac y gallent alw ar sgiliau ac arbenigedd tîm ymroddedig o staff a llywodraethwyr i wneud iddo ddigwydd. Cawsant eu siomi gan gynlluniau cynnar ar gyfer yr ysgol a oedd, er enghraifft, yn addo dim ond 48 o leoedd i barcio beiciau a sgwteri i 468 o ddisgyblion. Nid oedd dim yn y canllawiau Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ymwneud â darpariaeth teithio llesol. Roedd lefel y gefnogaeth a gawsant gan y cyngor hefyd yn amrywio rhwng swyddogion. Roedd y canlyniadau cychwynnol yn gadarnhaol: 0% o rieni yn gyrru i safle'r ysgol yn ystod mis Ionawr; digon o gerdded, beicio a sgwtera; cofrestrodd tua dau ddwsin o rieni ar gyfer y bws cerdded, sy'n denu tua 18 o blant ar daith y bore.

Pwysleisiodd bwysigrwydd y dull abwyd a chosb. Yr abwyd yw'r bws cerdded o'r meysydd parcio am ddim oddi ar safle'r ysgol a'r gosb yw'r dirwyon a godir ar rieni sy'n parcio ger yr ysgol. Roedd pob rhiant wedi dyfeisio cynllun teithio unigol i gael eu plant i'r ysgol.

Gan edrych i'r dyfodol, roedd angen: mwy o waith ar gludiant staff ac ymwelwyr a danfoniadau; ehangu'r ddarpariaeth bysiau cerdded. Roeddent hefyd yn awyddus i gael gorsaf Nextbike a gwelliannau mewn seilwaith teithio llesol lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i Dafydd am ei gyflwyniad a chafodd gymeradwyaeth gynnes gan y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn, croesawodd y Cadeirydd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg a Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'r cyfarfod. Gwahoddodd y Gweinidog Addysg i ymateb i gyflwyniad Dafydd ac i nodi'r ffordd y mae ei hadran o annog teithio llesol.

Diolchodd y Gweinidog i Dafydd am ei gyflwyniad a'r gwaith y mae wedi bod yn ei wneud. Estynnodd ei llongyfarchiadau hefyd i'r pennaeth am ei gwaith ar y prosiect, gan bwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth. Siaradodd am yr angen i wneud teithio llesol yn gyfleus i rieni ac roedd o'r farn bod llawer mwy y gallai ei hadran ei wneud. Roedd wedi synnu nad oedd y canllawiau ar gyfer Band A rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cynnwys teithio llesol. Roedd y Canllawiau ar gyfer Band B, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, wedi cywiro hyn. Roedd rhai achosion busnes ar gyfer ysgolion wedi'u gwrthod am nad oedd ystyriaeth ddigonol i deithio llesol. Fodd bynnag, pwysleisiodd nad yw seilwaith allanol yn rhan o'r rhaglen; roedd angen cefnogaeth gan awdurdodau priffyrdd ac asiantau cefnffyrdd. Gan droi at y cwricwlwm newydd, eglurodd y Gweinidog fod sawl cyfle i drafod a hyrwyddo teithio llesol ar draws y cwricwlwm.

Yn dilyn hynny cafwyd cyfnewidiad bywiog o gwestiynau a thrafodaethau. Y prif bwyntiau a drafodwyd oedd: i ba raddau y gellid disgwyl i'r gyllideb addysg gwmpasu seilwaith teithio llesol allanol; sut y gallai priffyrdd ac addysg gydweithio'n fwy effeithiol; pam nad oedd ysgolion newydd wedi'u cynnwys yn awtomatig ar Fapiau Rhwydwaith Integredig awdurdodau lleol; a oedd yn deg canolbwyntio cyllid teithio llesol ar ysgolion newydd; yr angen i gynnal dadansoddiad ymddygiad i bennu pa dechnegau ar gyfer annog gwaith sifft moddol. O gofio bod angen i'r Gweinidog adael, diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfraniad a gofynnodd am barhau'r ddeialog, a chytunodd hithau. Parhaodd cwestiynau i Dafydd gyda thrafodaeth ynghylch: pa mor bosibl oedd ailadrodd profiad Ysgol Hamadryad, o ystyried yr arweinyddiaeth eithriadol a welwyd yno; cael rhieni i gytuno, fel y soniodd Dafydd oedd yn rhan o'r pecyn y mae rhieni wedi ymrwymo iddo wrth gofrestru yn yr ysgol; sut i ddarparu ar gyfer plant ag anableddau; goblygiadau o ran adnoddau wrth ddefnyddio cynorthwywyr addysgu i gynnal y bws cerdded; yr argyfwng ansawdd aer o amgylch ysgolion; ac effeithiolrwydd ysgolion sy'n arwain d
trwy esiampl. Esboniodd Dafydd ei fod wedi cytuno i weithio gyda'r Grŵp Trawsbleidiol i lunio pecyn cymorth yn seiliedig ar ei brofiadau a fyddai'n ymdrin â'r holl bynciau hyn. Diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i Dafydd am ei gyfraniad.

**Hyfforddiant Beicio mewn Ysgolion**

Amlinellodd yr Ysgrifennydd y materion sy'n peri pryder: yn bennaf y graddau yr oedd pob plentyn yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant yr oedd ganddynt yr hawl iddo a'r ffordd y caiff yr hyfforddiant ei drefnu a'i reoleiddio. Yn wahanol i Loegr a'r Alban nid oedd Cymru yn rhan o gynllun Bikeability. Gwahoddodd y Cadeirydd Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, i annerch y cyfarfod, gan ei longyfarch ar y dechrau gwych yr oedd wedi'i wneud o ran ei bortffolio newydd. Siaradodd y Dirprwy Weinidog am fater hyfforddiant beicio yng Nghymru. Roedd wedi comisiynu adolygiad mawr o ddarpariaeth diogelwch ar y ffyrdd, y gyllideb diogelwch ffyrdd sy'n ariannu hyfforddiant beicio ar hyn o bryd, i weld a ellid canolbwyntio mwy ar alluogi teithio llesol. Cafwyd trafodaeth ar effeithiolrwydd hyfforddiant beicio yng Nghymru. Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg gwerthuso; y mynediad cyfyngedig o ran plant na allent fforddio beic; absenoldeb hyfforddiant mewn ysgolion uwchradd; yr angen i ganolbwyntio cyllid diogelwch ar y ffyrdd ar fentrau fel Ymgyrch Close Pass. Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Weinidog am ei gyfraniad a chynigiodd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol sefydlu Gweithgor i archwilio'r tair agwedd a drafodwyd yn y cyfarfod a chyflwyno cynigion ymarferol. Derbyniodd y cyfarfod y cynnig. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n croesawu llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol gydag awgrymiadau ar gyfer camau cadarnhaol.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb, a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**:

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Russell | George | Aelod Cynulliad |
| John | Griffiths | Aelod Cynulliad |
| Llyr | Gruffydd | Aelod Cynulliad |
| Huw | Irranca-Davies | Aelod Cynulliad |
| Jenny | Rathbone | Aelod Cynulliad |
| Lee | Waters | Aelod Cynulliad |
| Kirsty | Williams | Aelod Cynulliad |
| Richard | Evans | (Yn cynrychioli Jane Hutt AC) |
| Meryl | James | (Yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| Peter | Wong | (Yn cynrychioli Jenny Rathbone AC) |
| Ken | Barker | Ymgyrch Feicio Caerdydd |
| Stephen | Brooks | Sustrans Cymru |
| Rebecca | Brough | Cerddwyr Cymru |
| Lindsey | Brown | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Richard | Brunstrom | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Neil | Canham | Sustrans Cymru |
| Rhian | Carbis | Ysgol Hamadryad |
| Duncan | Dollimore | Cycling UK |
| Catherine | Floyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Trafnidiaeth Cymru |
| Owain | Griffiths | Beicio RhCT |
| Nick | Guy | Wheelwrights |
| Rhiannon | Hardiman | Living Streets |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| Matt | Mallinder | Cycling UK |
| John | Mather | Cycling UK Gogledd Cymru |
| Hugh | McKay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| David | Naylor | Wheelwrights |
| Gwenda | Owen | Cardiff Cycle City |
| Matt | Pris | Gweithgor Polisi Cynllunio Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Rhys | Taylor | Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint |
| Karen | Thompson | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Dafydd | Trystan | Ysgol Hamadryad |
| Jonathan | West | Iechyd Cyhoeddus Cymru |